Living & Learning
Dysgu i Dyfu

Leading Worship
Arwain Addoliad

ATHROFA **PADARN** SANT
ST **PADARN'S** INSTITUTE

Am Y Cwrs

Modiwl ydy hwn o'r cwrs, 'Dysgu i Dyfu' a gynlluniwyd i helpu'r bobl hynny a hoffai chwarae mwy o ran mewn arwain addoliad. Cwrs chwe-sesiwn ydyw. Mae'r pum sesiwn cyntaf yn archwilio gwahanol agweddau ar arwain addoliad, ac wedyn bydd sesiwn chwech yn cael ei gwblhau ar ôl i chi gael cyfle i ddatblygu eich sgiliau fel arweinydd addoliad yn eich eglwys leol. Cynlluniwyd y sesiwn olaf i'ch galluogi i fyfyrio ar eich profiad fel arweinydd addoliad a rhoi cyfle i chi a'ch eglwys ganfod ffordd ymlaen i chi. Byddai'n gwneud llawer iawn o synnwyr ymarferol i'r pum sesiwn cyntaf gael eu cynnal o fewn adeilad eglwys.

O'r iaith Sacsoneg y daw'r gair Saesneg 'worship' atom lle mae'n disgrifio a 'grant o werth'. Felly rhoi i Dduw y gwerth sy'n ddyledus iddo yw addoli. Ac rydym yn rhoi'r gwerth hwnnw trwy gynnig i Dduw yr oll ydym a phopeth sydd gennym, a ddisgrifiwyd yn draddodiadol yn Llyfr Gweddi Gyffredin 1662 fel 'ein rhwymegid ddyled a gwasanaeth'.

Nid gweithgaredd cynulleidfaol yn unig mo addoli. Yn llyfr Datguddiad Ioan dangosir gweledigaeth i ni o addoli'r nef lle mae pob creadur yn y nef ac ar y ddaear ac o dan y ddaear ac yn y môr oll yn addoli'r Duw byw trwy ganu (Dat 5: 13),

> *"I'r un sy'n eistedd ar yr orsedd ac i'r Oen*
> *y bo'r mawl a'r anrhydedd a'r gogoniant a'r nerth byth bythoedd!"*

Felly, er mai ein ffordd ni o anrhydeddu Duw yw addoli, weithiau mewn niferoedd eithaf bach o bobl yn ein heglwys neu gapel bach yn ein pentref, mae'n uno ein heglwys leol â'r Eglwys Gyffredinol ac yn ei dro ag addoli'r nef. Felly mae modd gweld ein haddoliad yn rhan o'r weithred fawr honno o addoliad a diolchgarwch trwy yr hon mae'r greadigaeth oll yn addoli'r Duw byw.

'Litwrgaidd' fel arfer yw Addoliad Anglicanaidd. Ystyr y gair litwrgi yw 'gweithred o wasanaethu' ac fe ddaeth i olygu gweithred o addoli sydd â strwythur gosod iddi, mwy neu lai, sy'n defnyddio geiriad gosod.

Am flynyddoedd lawer roedd yr Eglwys Anglicanaidd yn dibynnu ar Lyfr Gweddi Gyffredin (1662) am ei haddoliad yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diweddar fe fu llawer o fersiynau diwygiedig a lluniwyd set newydd gyfan o wasanaethau at ein defnydd ni yma yng Nghymru. Ac mae'r hyn sy'n wir am yr Eglwys Anglicanaidd yn wir am bob enwad arall.

Mae arwain addoliad wastad wedi bod yn rhan allweddol o waith yr Offeiriad neu'r Gweinidog ac mae hynny yr un fath heddiw. Fodd bynnag, mae ad-drefnu bugeiliol, ac yn enwedig o fewn yr Eglwys yng Nghymru, datblygu Ardaloedd Gweinidogaeth wedi creu plwyfi lle ni all offeiriad y plwyf gyflawni rôl draddodiadol o fewn pob un o'r eglwysi a drosglwyddwyd i'w gofal hi/ofal ef. Mae hyn wedi cael ei gysylltu â'r cynnydd cyson yn natblygiad y weinidogaeth leyg, cydnabyddiaeth o natur hanfodol gydweithredol yr eglwys ac ymrwymiad cynyddol i gysyniad 'gweinidogaeth pob Cristion a fedyddiwyd.' Mae hyn yn wir am bob enwad.

Yn wir, rydym ni i gyd yn dod â'n profiad o addoli a luniwyd gan wreiddiau litwrgaidd penodol. Fe fydd y rhain yn rhannol yn bersonol ac yn rhannol wedi eu tynnu o'r cymunedau lleol rydym wedi bod yn aelodau ohonynt. Byddant wedi cael eu ffurfio gan ein henwad ni, sydd ynddo'i hun yn rhan o'r eglwys ehangach. Nid yw'r gwreiddiau yn unigol nac yn syml yn unrhyw un o'r traddodiadau hyn, ond yn hytrach maen nhw'n gymhleth. Byddant wedi dod allan o'r archwiliadau amrywiol o'r ysgrythur, hanes, diwinyddiaeth, ysbrydolrwydd ac ymddygiad dynol sydd wedi arwain at y llu o fewnweliadau, arbrofion, tueddiadau a thestunau litwrgïaidd a welwch yn yr Eglwys heddiw.

About the Course

This is a module of the course, 'Living and Learning' that is designed to help those people who would like to become more involved in leading worship. It is a six-session course. The first five sessions explore different aspects of leading worship, and session six will then be completed after you have had a chance to develop your skills as a worship leader in your local church. This last session is designed to enable you to reflect on your experience as a worship leader and give you and your church an opportunity to discern a way forward for you. It would make a great deal of practical sense for the first five sessions to be held within a church building.

The word worship comes to us from the Saxon language where it describes a 'grant of worth'. To worship God is therefore to grant him the worth that is due to him. And we grant that worth by offering God all that we are and all that we have, described traditionally in the 1662 Book of Common Prayer as 'our bounden duty and service'.

Worship is not just a congregational activity. In the Revelation of John, we are shown a vision of the worship of heaven where every creature in heaven and on earth and under the earth and in the sea all worship the living God by singing (Rev 5: 13),

> *"To the one seated on the throne and to the Lamb*
> *be blessing and honour and glory and might for ever and ever!"*

Therefore, while worship is our means of our honouring God, sometimes with quite small numbers of people in our little village church or chapel, it joins our local church to the Church Universal and in turn to the worship of heaven. Therefore, our worship can be seen to be part of that great act of praise and thanksgiving by which all creation worships the living God.

Anglican Worship is usually 'liturgical'. The word liturgy means 'an act of serving' but has come to mean an act of worship that has a more or less set structure, using set forms of words.

For many years the Anglican Church relied on the Book of Common Prayer (1662) for its worship in England and Wales. However, in recent years there have been many revisions and a whole new set of services have been constructed for our use here in Wales. And what is true of the Anglican Church is true of all other denominations.

Leading worship has always been a key part of the Priest or Minister's work and that remains so today. However, pastoral reorganization, and in particular within the Church in Wales, the development of Ministry Areas, has created parishes in which the parish priest is unable to fulfil a traditional role within each of the churches committed to her/his care. This has been allied to a steady increase in the development of lay ministry, a recognition of the essentially collaborative nature of the church and a growing commitment to the concept of the 'ministry of all baptized Christians'. This is again true of all denominations.

Indeed, we all come with our experience of worship that has been formed by particular liturgical roots. These will be in part personal and in part drawn from the local communities of which we have been members. They will be formed by our own denomination, which is itself part of the wider church. In none of these traditions are the roots singular or simple, but rather they are complex. They will have come out of the diverse explorations of scripture, history, theology, spirituality, and human behaviour that have led to the many liturgical insights, experiments, trends and texts that we see in today's Church.

Mae'r modiwl hwn yn anelu at roi i chi ddealltwraieth sylfaenol o bopeth sydd yn ymwneud ag arwain addoliad a'ch galluogi i fyfyrio ar eich profiad eich hun fel addolwr ac arweinydd addoliad. Fe'ch cynorthwya i ddeall sut i arwain addoliad yn dda, sut i gyfathrebu'r ysgrythurau, sut i arwain gweddi, sut i greu ac arwain 'Gwasanaeth y Gair' a sut i lunio gweithredoedd addoli at wahanol achlysuron. Fe fydd wedyn yn help i chi weld a yw Duw yn eich galw at y gwaith hwn.

This module aims to provide you with a basic understanding of all that is involved in leading worship and to enable you to reflect on your own experience as a worshipper and a worship leader. It will help you to understand how to lead worship well, how to communicate the scriptures, how to lead prayers, how to create and lead a 'Service of the Word' and how to construct acts of worship for different occasions. It will then help you to discern if God is calling you to do this work.

Sesiwn 1

Beth yw Addoliad?

Cyn y Sesiwn

1. Darllenwch y Cyflwyniad.
2. Edrychwch drwy gopi o lyfr gwasanaethau yr ydych yn debygol o arwain gydag ef yn eich eglwys. Chwiliwch am ble mae'r gwasanaeth yn cynnwys y rhai a ganlyn (a ddisgrifir yn y Cyflwyniad), a gwnewch nodyn ysgrifenedig o hynny: Mawl, Diolchgarwch, y Gair, Ymbil a Deiseb , Edifeirwch, Cadarnhau'r Ffydd.
3. Dewch â chopi o'r gwasanaeth hwn a'ch nodiadau gyda chi i'r sesiwn

Session 1

What is Worship?

Before the Session

1. Read the Introduction.
2. Look through a copy of a service book that you are likely to lead in your church. Identify and write down where the service contains the following (described in the Introduction): Praise, Thanksgiving, the Word, Supplication and Petition, Repentance, Affirmation of Faith.
3. Bring with you to the session a copy of this service and your notes.

Cyflwyniad

Un Yn aml iawn disgrifir addoli fel prif weithred genhadol yr eglwys oherwydd wrth addoli tystiolaethwn mewn gweddi a diolchgarwch i'r Duw sy'n creu ac yn gwaredu'r byd. Wrthinniymunomewnaddoliad, downynrhanostorisanctaiddiachawdwriaeth. Adroddir y stori wrth inni ymgynull i addoli Duw. Clywn am sut mae Duw yn creu ac yn gwaredu ei fyd ac, wrth inni ymgynnull yn gymuned o Gristnogion, profwn ein rhan ni yn stori iachawdwriaeth, fel unigolion ac fel eglwys.

Mae i bob addoliad strwythur sylfaenol cyffredin. Efallai fod hyn yn cael ei adlewyrchu'n wahanol mewn gwahanol draddodiadau ac enwadau, ond yn ei hanfod addolwn gyda'n gilydd, gan ddod â phrysurdeb ein bywydau dyddiol gyda ni. Wrth inni ymgynull, paratown i addoli, yn unigolion ac yn gymuned. Yn aml iawn, bryd hynny bydd cyfle i fyfyrio ar y camgymeriadau rydym wedi eu gwneud a chyffesu'r pechodau rydym wedi eu cyflawni, 'ar feddwl, gair a gweithred, ac yn yr hyn yr ydym wedi ei adael heb ei wneud' a chlywn faddeuant Duw. Weithiau daw'r cyfle hwnnw yn ddiweddarach ac mewn ffurf wahanol. Wedyn down ymgyfarfyddwn â Gair Duw, trwy ddarlleniadau o'r ysgrythur, salm o bosib, pregeth a chadarnhau ein ffydd. Fe fydd gweddi a fydd yn cynnwys ymbiliau ar gyfer yr eglwys, y byd, y gymuned leol, y rhai sydd yn sâl, er cof am y rhai sydd wedi marw a diolchgarwch am y rhoddion mae Duw wedi eu rhoi i ni. Yna, bydd diweddgo trwy yr hwn yr ydym yn cael ein hanfon allan yn ôl i'r byd eto. Gall hyn gynnwys fendith a gollwng. Ac yn aml fe fydd cerddoriaeth, emynau a / neu ganeuon mawl.

Datganiad diwinyddol i bob pwrpas yw pob adran o'n litwrgi, gan ddweud wrthym am ein Duw a'i genhadaeth i ni ac i'r holl greadigaeth. Felly, ymgyfarfyddwn ag ef trwy ein litwrgi fel Duw sy'n maddau, Duw sy'n dysgu ei ffyrdd i ni, a Duw sydd yn ymboeni'n ddwys am ei byd a Duw sy'n ein galw i deithio gydag ef a bod yn dyst iddo yn y byd. Drama sydd yn ymagor yw litwrgi sy'n datgan sut mae Duw yn gweithredu a sut y gallwn ymateb.

Mynegwn ein haddoliad trwy addoliant, gan addoli Duw y bod, a rhyfeddod, harddwch, gallu a nerth Duw; trwy ddiolchgarwch, sef diolch i Dduw am ei roddion personol a chyffredinol; trwy fawl, mynegiant allanol y credinwyr o'u haddoliad a'u addoliant o Dduw; trwy ymbil a deiseb, gan ofyn am ddoniau a grasau penodol oddi wrth Dduw i'r rhai mewn angen; a thrwy edifeirwch, gan ymddiheuro wrth Dduw fel unigolion ac fel cymuned. Rydym hefyd yn myfyrio ar air Duw ac yn cadarnhau ein ffydd gyda'n gilydd.

Wrth addoli rydym ni'n cydnabod bod man gysegredig. Mewn adeiladau eglwys y cynhelir addoliad corfforaethol gan amlaf a hyd yn oed o fewn eglwysi mae lleoedd wedi eu neilltuo sydd o arwyddocâd arbennig o ysbrydol. Mae'n gyffredin i'r mannau hyn gynnwys y gangell a'r cysegr, y lle o gwmpas yr allor. Mae amser sanctaidd. Cysylltir dydd Sull yn draddodiadol ag addoliad Cristnogol ac fe erys hynny yn bwysig i lawer o bobl. Fodd bynnag, o fewn gwasanaethau mae prydiau neu eiliadau o ffocws neu arwyddocâd arbennig. Yn draddodiadol y mae 'geiriau'r sefydlu' pan fydd yr offeiriad yn ailadrodd geiriau Iesu yn y swper olaf yn eiliad o'r fath honno. Mae pobl sanctaidd. Y rhain yw'r bobl a fydd fel arfer mewn gwisgoedd arbennig o fewn y traddodiad Anglicanaidd i arwain addoliad, gan ddynodi eu bod wedi 'u 'neilltuo' ar gyfer tasg benodol. Yn draddoadiadol offeiriad neu weinidog fu'r person sanctaidd sy'n perfformio camau gweithredu na all eraill mo'u perfformio. Camau gweithredu sanctaidd yw'r rhain fel tynnu arwydd y groes yn ystod y rhyddhau oddi wrth bechod neu godi'r gangell a'r patrwm yn ystod y Diolchgarwch Mawr yn y Cymun.

Mewn litwrgïau traddodiadol, cysylltir man sanctaidd, amser sanctaidd a chamau gweithredu sancataidd oll â'r offeiriad neu'r gweinidog sy'n berson sanctaidd. Mewn litwrgïau modern, nid yw hyn yn wir. Gellir defnyddio adeiladau eglwys mewn ffyrdd newydd a chreadigol. Gall pawb sy'n bresennol gymryd rhan yn y gwasanaeth ac yn aml iawn cynigia'r litwrgïau newydd gamau gweithredu sanctaidd (e.e. cynnau cynnwyll) fydd yn cynnwys pawb ac yn ceisio creu eiliadau sanctaidd ar wahanol adegau yn y gwasanaeth.

Introduction

Worship is often described as the church's primary act of mission because in worship we witness in prayer and thanksgiving to the God who creates and redeems the world. As we join in worship, so we become part of the sacred story of salvation. That story is told as we gather to worship God. We hear how God creates and redeems his world and, as we gather as a community of Christians, we experience our own part in the story of salvation, as individuals and as a church.

All worship has a common underlying structure. This may be reflected differently in different traditions and denominations, but essentially we gather together, bringing with us the busyness of our daily lives. As we gather, we prepare for worship, as individuals and as a community. Often at this stage there is an opportunity to reflect on the mistakes that we have made and confess the sins we have committed, 'in thoughts, word and deed, and in what we have left undone' and we hear God's forgiveness. Sometimes that opportunity comes later and in a different form. We then encounter God's Word, through readings from the scripture, possibly a psalm, a sermon and an affirmation of our faith. There will be prayer which will include intercessions for the church, the world, the local community, and for those who are sick, remembering those who have died, and often thanksgiving for the gifts God has given us. There will then be a conclusion through which we are sent back out into the world. This may include a blessing and a dismissal. And there will often be music, hymns and/or songs of praise.

Each section of our liturgy is effectively a theological statement, telling us about our God and his mission for us and for the whole of creation. Therefore, we encounter him through our liturgy as a God who forgives, a God who teaches us his ways, a God who cares passionately for his world and a God who calls us to journey with him and to witness to him in the world. Liturgy is an unfolding drama which proclaims how God acts and how we may respond.

We express our worship through adoration, the worship of the being of God, God's wonder, beauty, power and might; through thanksgiving, thanking for God's gifts both personal and universal; through praise, the believers' outward expression of their worship and adoration of God; through supplication and petition, asking for particular gifts and graces from God for those in need; and through repentance, saying sorry to God individually and as a community. We also reflect on God's word and affirm our faith together.

In worship we recognise that there is sacred place. Corporate worship is most commonly held in church buildings and even within churches there are spaces marked out that are of particularly spiritual significance. These spaces commonly include the chancel and the sanctuary, the space around the altar. There is sacred time. Sunday is a day traditionally associated with Christian worship and that remains important for many people. However, within services there are times or moments of particular focus or significance. Traditionally the 'words of institution' when the priest repeats the words of Jesus at the last supper are one such moment. There are sacred people. These are the people who usually dress up within the Anglican tradition to take worship, indicating that they have been 'set apart' for a particular task. Traditionally the sacred person has been the priest or minister who performs actions that others cannot perform. These are sacred actions like making the sign of the cross during absolution or raising the chalice and pattern during the Great Thanksgiving at the Eucharist.

In traditional liturgies sacred place, sacred time and sacred actions are all associated with the priest or minister who is the sacred person. In modern liturgies, this is no longer the case. Church buildings can be used in new and creative ways. Everybody present can take part in the service and new liturgies often provide sacred actions (e.g. lighting a candle) that involve everybody and look to create sacred moments at different points in the service.

Wrth addoli rydym yn profi llawer o wahanol fathau o gyfarfyddiadau. Byddwn yn ymgyfarfod â Duw trwy ein synhwyrau i gyd. Byddwn yn ymgyfarfod â Duw trwy eraill yn y gymuned. Byddwn yn dod ar draws traddodiadau yr eglwys sydd wedi helpu i ffurfio ein litwrgi a byddwn yn dod ar draws gobeithion a dyheadau presennol ein cymuned eglwysig mewn cenhadaeth a gwasanaeth. Felly ni all neb fod yn oddefol mewn addoliad nac yn amharod i addoli. Er na fydd dau berson yn ymateb yn union yr un ffordd i unrhyw weithred o addoli, fel arfer fe fydd addoli dilys yn fywiog ac yn gallu adlewyrchu emosiynau, profiadau ac anghenion y rhai sy'n bresennol. Pa ffurf bynnag a fo iddo, yn aml iawn, fe fydd addoli ar ei orau pan fydd yn ddeinamig, yn heriol ac yn meithrin.

Diffiniwyd addoli mewn nifer of ffyrdd. Honnai'r Archesgob William Temple

> *"Addoli yw:*
> *Cyflymu'r gydwybod trwy sancteiddrwydd Duw*
> *Bwydo'r meddwl gyda gwirionedd Duw*
> *Puro'r dychymyg gyda harddwch Duw*
> *Agor y galon i gariad Duw*
> *Neilltuo'r ewyllys i bwrpas Duw"*[1]

Wrth addoli rydym yn mynd yn rhan o stori iachawdiaeth. Rydym yn ymgyfarfod â'r Duw byw mewn gair a sacrament ac yr ydym yn tystio i'w bresenoldeb achubol yn ein byd heddiw. Wrth addoli rydym yn wir yn mynd yn gorff Crist ac yn rhan o'i genhadaeth yn ein byd. Mewn addoliad yr ydym yn ymgynull i glywed geiriau iachawdwriaeth Duw ac yn ymgyfarfod â phresenoldeb Duw ynom ni ac yn ein plith fel y gallwn gael ein hanfon allan mewn cenhadaeth a gwasanaeth.

Os yw addoliad yn adrodd hanes ein hiachawdwriaeth ac yn ein dysgu am Dduw, mae'r ffordd yr ydym yn arwain yr addoliad yn dweud llawer iawn am ein ffydd ni a phwy y credwn yw Duw. Ac mae hyn yn wir boed ni'n darllen gwers, yn arwain y gweddïau neu yn arwain 'addoliad i bob oed'. Dyna ein her.

In worship we experience many different kinds of encounters. We will encounter God through all our senses. We will encounter God through others in the community. We will encounter the traditions of the church that have helped form our liturgy and we will encounter the present hopes and aspirations of our church community in mission and service. Therefore, there can be nothing passive or reluctant about worship. Although no two people respond in exactly the same way to any act of worship, authentic worship will usually be vibrant and able to reflect the emotions, experiences and needs of those present. Whatever its form, worship will often be at its best when it is dynamic, challenging and nurturing.

Worship has been defined in various ways. Archbishop William Temple claimed

> *"To worship is:*
> *To quicken the conscience by the holiness of God*
> *To feed the mind with the truth of God*
> *To purge the imagination by the beauty of God*
> *To open the heart to the love of God*
> *To devote the will to the purpose of God"* [1]

In worship we become bound up in the story of salvation. We encounter the living God in word and in sacrament and we witness to his saving presence in our world today. In worship we truly become the body of Christ and part of his mission in our world. In worship we are gathered together to hear God's words of salvation and encounter God's presence in and among us so that we may be sent out in mission and service.

If worship tells the story of our salvation and teaches us about God, so the way in which we lead worship says a great deal about our own faith and who we believe God to be. And this is true whether we are reading a lesson, taking the prayers or leading 'all age worship'. That is our challenge.

I'r Sesiwn Hwn

Cyrraedd Ac Addoli

Fel grŵp

1. Addolwch gyda'ch gilydd.

Prosiect 1

Yn barau

1. Dylai pob un ddisgrifio gweithred o addoli rydych chi wedi ei phrofi a oedd yn bositif, yn ystyrlon neu yn arwyddocaol i chi. Beth a wnaeth hi felly? Sut y bu i chi ymateb iddi a beth a wnaeth i chi ymateb fel hynny?
2. Mae pob un i ddisgrifio gweithred o addoli a brofoch chi a oedd yn annefnyddiol neu yn aflwyddiannus. Beth a wnaeth hi felly? Sut y bu i chi ymateb iddi a beth a wnaeth i chi ymateb fel hynny?

Fel grŵp

1. Myfiriwch gyda'ch gilydd, beth sy'n gwneud gweithred o addoli yn 'llwyddiannus" neu yn 'aflwyddiannus'?
   Ystyriwch bwysigrwydd: Ystyriaethau ymarferol.
   Profiadau a dewisiadau personol.
   Y ffyrdd mae Duw yn cael ei adlewyrchu a'i bortreadu.

For this Session

Arrive and Worship

As a group

1. Worship together.

Project 1

In pairs

1. Each describe an act of worship that you have experienced that was positive, meaningful or significant to you. What made it so? How did you respond to it and what made you respond that way?
2. Each describe an act of worship that you have experienced that was unhelpful or unsuccessful. What made it so? How did you respond to it and what made you respond that way?

As a group

1. Reflect together, what makes an act of worship 'successful' or 'unsuccessful'? Consider the importance of:
   Practical considerations.
   Personal experiences and preferences.
   The ways in which God is reflected and portrayed.

Prosiect 2

Fel unigolion

1. Edrychwch drwy'r gwasanaethau rydych chi wedi dod â nhw gyda chi a'r nodiadau a wnaethoch.
2. Rhannwch gyda'r grŵp elfennau Mawl, Diolchgarwch, y Gair, Ymbil a Deiseb, Edifeirwch, Cadarnhau'r Ffydd, rydych chi wedi eu gweld yn y llyfr gwasanaethau.

Fel grŵp

1. Dewiswch un drefn gwasanaeth i'w hastudio gyda'ch gilyd fel grŵp (os bydd amser yn yn caniatáu gallwch ystyried un arall).
2. Myfyriwch gyda'ch gilydd ar y cwestiynau:
   Pa rôl mae pob elfen yn ei chwarae yn nrama'r oedfa gyfan wrth iddi ymagor? Beth a ddywed pob elfen wrthym am bwy yw Duw ac am beth a wna Duw?
3. Sut gallech arwain pob un o wahanol rannau'r oedfa yn effeithiol i fynegi ei rôl arbennig yn yr oedfa?
   Ystyriwch bwysigrwydd: Tôn y llais
   Ieithgorff ac osgo
   Rôl y man addoli mae'r rhan o'r oedfa yn cael ei arwain ohono
4. Myfyriwch ar y cwestiwn:
   Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng addoliad a gynigir yn gyhoeddus ac addoliad a gynigir yn breifat?

Myfyrdod

Fel grŵp

1. Rhannwch bob un yn fyr beth rydych chi wedi'i ddysgu o'r sesiwn hwn.
2. Dywedwch sut mae'r sesiwn hwn wedi gwneud i chi deimlo.

Gweddi a Pharatoi

1. Cynigiwch waith y sesiwn i Dduw mewn gweddi.
2. Cynlluniwch eich paratoad ar gyfer y sesiwn nesaf.

Project 2

Individually

1. Look through the services you have brought with you and the notes you have made.
2. Share with the group the elements of Praise, Thanksgiving, the Word, Supplication and Petition, Repentance, and Affirmation of Faith that you have identified in the service book.

As a group

1. Choose one order of service to study together as a group (if time allows you can consider another).
2. Reflect together on the questions:
   What role is each element playing in the unfolding drama of the whole service? What is each element telling us about who God is and what God does?
3. How might you lead each of the different parts of the service effectively to express its particular role in the service?
   Consider the importance of: Tone of voice
   Body language and posture
   The part of the worship space from which it is led
4. Reflect on the question:
   What is the difference between worship offered in public and worship offered in private?

Reflection

As a group

1. Each share briefly what you have learned from this session.
2. Say how this session has made you feel.

Prayer and Preparation

1. Offer the session's work to God in prayer.
2. Plan your preparation for the next session.